PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MAWRTH, 10 MAI 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Hunt, McKerlich, Murphy a/ac Sanders |

90 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim.

91 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod ganddynt gyfrifoldeb dan Erthygl 16 Cod ‘Ymddygiad yr Aelodau’ i ddatgan unrhyw fuddiant ac i gwblhau ffurflenni Buddiant Personol.

92 : COFNODION

Cymeradwywyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2016 yn wir gofnod.

93 : ADOLYGIAD RHEOLI PERFFORMIAD

Croesawodd y Cadeirydd:

- y Cynghorydd Graham Hinchey, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad;
- Paul Orders, y Prif Weithredwr;
- Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau;
- Joseph Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys cymryd rhagolwg ar drefniadau rheoli, adrodd a herio perfformiad y Cyngor a gwneud argymhellion a allai wella perfformiad y Cyngor.

Mae hyn yn cynnwys craffu cyn penderfynu ar ddatblygu polisi ac felly cafodd y Pwyllgor gyfle i lywio’r ffordd ymlaen trwy gymryd rhan yn y datblygu polisi cyn penderfynu ar gyfer dull y cyngor o reoli perfformiad.

Gofynnodd y Cadeirydd i’r Cynghorydd Hinchey wneud datganiad.

Croesawodd y Cynghorydd Hinchey fewnbwn a chyfraniad gan y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad. Roedd prosesu rheoli ac adrodd ar ddata perfformiad yn gywir yn hanfodol er mwyn mesur y canlyniadau gyda'r cyfle hefyd i gyflymu’r gweithdrefnau cyffredinol.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi prif bwyntiau’r canlynol:

- *Egwyddorion y Dull*
  - *Y canlyniadau dan sylw*
  - *Rheoli Perfformiad Rhagweithiol – defnyddio data/dadansoddi tueddiadau*

- *Blaenoriaethau*
  - *Perfformio a Llywodraethu*
  - *Strategaeth Gweithlu*

- *Projectau*
  - *Cynllunio Busnes*
  - *Adrodd – amserlenni, mathau o wybodaeth, rheoli perfformiad yn effeithiol*
  - *Heriau*
  - *Ymgysylltu – safonau*
  - *Data agored – defnyddio setiau data, archwilio hygyrchedd*

- *Cynllunio Busnes – Allbynnau allweddol*
  - *Fframwaith Cynllunio Darparu'r Gyfarwyddiaeth Ddiwygiedig - mae'r cynlluniau'n bodloni'r meini prawf CAMPUS.*
  - *Sgorio RAG cadarn*
  - *Cardiau sgorio cytbwys er mwyn adrodd i'r Cabinet ac Adolygu Polisi a Pherfformiad (PRAP)*
  - *Bwrdd gwaith y ddinas ar gyfer bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus*

- *Her – prif Allbynnau*

- *Pyramid Data*

Diolchodd y Cadeirydd y Swyddogion am y wybodaeth gan wahodd cwestiynau gan y Pwyllgor.

Roedd gan Aelodau'r Pwyllgor ddiddordeb mewn dysgu sut y byddai'r Cerdyn Sgorio Cytbwys yn gweithio ochr yn ochr â'r Pyramid Data a sut y byddai'r mecanweithiau'n cynorthwyo ei gilydd.

Eglurodd swyddogion bod y dull adrodd hwn yn seiliedig ar 4 canlyniad. Roedd y Cerdyn Sgorio Cytbwys yn cynorthwyo'r 4 cwadrant ynghlwm â blaenoriaethau'r Cyngor er mwyn cefnogi a monitro nifer o ddangosyddion perfformiad. Roedd y cynigion diwygiedig yn amodol ar gynllunio rhaglen a byddai rhagor o wybodaeth ar gael i'r Pwyllgor Craffu eraill pan fyddent yn derfynol.

Cafodd y Pwyllgor ei sicrhau bod y 4 blaenoriaeth wedi eu nodi ac ar waith i gynorthwyo â'r gwelliant. Cytunwyd ar ddangosyddion perfformiad Chwarter 1 a gosodwyd yr amserlenni er mwyn cynnal y data.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at safon y gwasanaeth ac roedd yn awyddus i nodi sut y byddai'r Cerdyn Sgorio Cytbwys yn monitro safon a maint. Wrth ymateb, eglurodd y Swyddogion y byddai Cerdyn Sgorio Cytbwys yn dwyn y canlyniadau angenrheidiol. Bwriad y Cerdyn Sgorio Cytbwys oedd symud oddi wrth ffeithiau rhifol a chanolbwyntio ar brofiad y cwsmer. Roedd y symiau mawr o ddata yn golygu bod gwybodaeth bwysig yn cael ei methu ac felly roedd hi'n hanfodol canolbwyntio ar y prif faterion.

Cyfeiriodd Aelodau'r Pwyllgor at adrannau'n ymgorffori'r fethodoleg wrth ddefnyddio technegau rheoli perfformiad er mwyn mesur Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod setiau data ehangach yn cael eu sefydlu mewn adrannau, gydag amcanion cysylltiedig er mwyn mesur a deall effeithiolrwydd y gwasanaeth.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor a fyddai Bwrdd Gwaith y Ddinas ar gyfer Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn helpu'r Aelodau i sicrhau bod y bartneriaeth yn atebol. Wrth ymateb, tynnodd Swyddogion sylw at y partneriaethau sy'n bodoli er mwyn cynorthwyo â'r broses.

PENDERFYNWYD: Y byddai Cadeirydd Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad yn ysgrifennu at y tystion yn diolch iddynt am ddod i'r cyfarfod ac yn nodi'r sylwadau a wnaeth yr Aelodau (mae'r llythyr ynghlwm).

94 : CWMNI MASNACHU'R AWDURDOD LLEOL – COMISIYNU A CHAFFAEL

Croesawodd y Cadeirydd:

- y Cynghorydd Graham Hinchey, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad;
- Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau;
- Steve Robinson, Rheolwr Gweithredol Caffael.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau y byddant yn clywed cyflwyniad yn cynnwys gwybodaeth am yr achos busnes er mwyn sefydlu Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol ar gyfer y Gwasanaeth Comisiynu a Chaffael.
Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Hinchey wneud datganiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hinchey at y pwysau cyllidebol yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu. Byddai'r cynnig yn golygu y byddai staff gwerthfawr yn cael eu cadw, yn sicrhau refeniw ychwanegol ac yn gwneud arbedion cyllidebol.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi prif bwyntiau'r canlynol:

- *Cynigion Cyllideb Comisiynu a Chaffael*
- *Sefyllfa staffio*
- *Cyfleoedd sydd ar gael eisoes*
    - *Sector Cyhoeddus – busnes cyfredol*
    - *Sector Preifat - potensial*
- *Trawsnewid Caffael*
- *Rheoli'r Categori*

- *e-Gaffael a Thoriadau'r Swyddfa Gefn*
- 
- *Modelau Darparu Eraill*

- *Opsiynau trwy'r* Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol

- *Prif Beryglon*

Diolchodd y Cadeirydd y Swyddogion am y wybodaeth gan wahodd cwestiynau gan y Pwyllgor.

Sicrhawyd y Pwyllgor y byddai'r Cyngor yn rheoli TAW y Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol trwy ei systemau cyfrifyddu cyfredol. Ni fyddai telerau ac amodau cyflogeion newid, ond roedd hwn yn gyfle i annog datblygiad staff. Roedd y Cyngor yn awyddus i ddatblygu ei agenda masnacheiddio ac ystyrid dull Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol fel cyfle i fwrw ymlaen â'r agenda hwn. Roedd Cyflogeion yn deall y sefyllfa ac yn deall eu paramedrau gweithredu.

Trafododd y Pwyllgor gamau'r cynnig a sut y byddai staff yn cofnodi amser i adennill arian. Roedd y model hwn yn cynorthwyo'r tîm presennol ac roedd wedi ei gynllunio i ddal gafael yng ngwybodaeth ac arbenigedd yn y Cyngor.

Dywedwyd wrth Aelodau y rhoddid hyfforddiant estynedig i staff er mwyn cynorthwyo'r gwasanaeth a datblygu targedau hunanysgogol. Byddai'r tîm yn cael ei ddatblygu yn unol â'r refeniw a gynhyrchid a byddai posibilrwydd o gynorthwyo Rhaglen i Raddedigion mewn partneriaeth â'r brifysgol.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod llyfr archebion Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol eisoes yn llawn gydag archebion y sector cyhoeddus am y chwe mis nesaf. Byddai'r fenter hon yn gyfrwng i'r Cyngor fasnachu â sefydliadau'r sector preifat, a oedd eisoes yn dangos cryn ddiddordeb yn y gwasanaeth ac roedd potensial o ddatblygu hyn ymhellach.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor na fyddai'r Bwrdd yn cynnwys Aelod Cyngor, ond byddai'n rhoi adborth i'r Cabinet pan fyddai angen. Ni ddaeth unrhyw sylwadau anffafriol i law gan yr undebau llafur, oherwydd na fyddai swyddi'n cael eu colli.

Rhoddwyd gwybodaeth am yr achos busnes i Aelodau yn gysylltiedig â'r grymoedd masnachu, hygyrchedd i gleientiaid a sgiliau gwneud ceisiadau. Roedd hyn yn gyfle i gyflymu'r dysgu a'r wybodaeth er mwyn dod â sgiliau yn ôl i'r Cyngor i gynorthwyo'r sefydliad. Roedd y model wedi ei gynllunio i gael gwerth trwy fasnachu â'r sector preifat a chynorthwyo'r Cyngor â'i gynnig cyllideb trwy gyflawni mwy am lai.

PENDERFYNWYD: Y byddai Cadeirydd Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad yn ysgrifennu at y tystion yn diolch iddynt am ddod i'r cyfarfod ac yn nodi'r sylwadau a wnaeth yr Aelodau (mae'r llythyr ynghlwm).

95 : ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015/16

Derbyniodd y Pwyllgor ei Adroddiad Blynyddol yn 2015/16 cyn i'r Cyngor Llawn ei ystyried.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor gymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2015-16 Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad i'w gyflwyno i'r Cyngor.

96 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Mawrth 7 Mehefin 2016